

Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad Deddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwall ac Adfer) Codau Ymarfer DWP

Cyflwyniad

Dyma ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gyfer Deddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adferiad) Codau Ymarfer DWP canlynol:

- Gwirio Cymhwysedd yn y System Les
- Cael Gwybodaeth i Gefnogi Ymchwiliadau Twyll yn y System Les
- Didyniadau Uniongyrchol a Gorchmynion Anghymwyso rhag Gyrru.

Mae'r ddogfen ymateb yn manylu ar:

- Cefndir pwerau perthnasol Deddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwall ac Adfer) 2025 ("Deddf") a'r ymarfer ymgynghori.
- Adrodd ystadegol o'r ymatebion a chrynodebau o'u themâu allweddol.
- Lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi ystyried yr ymatebion ac wedi diwygio'r Codau Ymarfer.

Crynodeb Gweithredol

- Mae Deddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwall ac Adfer) 2025 yn moderneiddio'r fframwaith i alluogi'r Adran Gwaith a Phensiynau ("DWP") i nodi, atal a lleihau twyll a gwallau yn y system nawdd cymdeithasol yn fwy effeithiol ac adfer dyled yn effeithlon. Datblygwyd tri Chod Ymarfer drafft, i sicrhau defnydd diogel, effeithiol a chymesur o bwerau newydd DWP.
- **Hysbysiadau Gwirio Cymhwysedd DWP** – Mae'r Ddeddf yn caniatáu i DWP gyhoeddi Hysbysiadau Gwirio Cymhwysedd ("EVNs") i'w wneud yn ofynnol i fanciau a sefydliadau ariannol eraill edrych ar y data sydd ganddynt ar gyfrifon penodol a darparu gwybodaeth i helpu DWP i wirio hawl hawliwr i fudd-daliadau a nodi taliadau anghywir. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn esbonio pryd y gellir cyhoeddi Hysbysiad Gwirio Cymhwysedd (EVN), ac mae'n darparu canllawiau ar ei gynnwys, ei gwmpas, a'r defnydd o ddata a gafwyd drwy EVN. Mae hefyd yn nodi'r prosesau apêl ac adolygu sydd ar gael i sefydliadau ariannol, y cosbau ar gyfer sefydliadau ariannol sy'n methu â chydymffurfio ag EVN, a'r mesurau diogelu sydd ar waith i ddiogelu pynciau data a'u gwybodaeth.
- **Didyniad Uniongyrchol DWP a Gorchmynion Anghymwyso rhag Gyrru** – Ehangwyd pwerau adfer dyledion gan y Ddeddf i greu mwy o degwch wrth adfer dyledion DWP. Ar ôl perfformio asesiad fforddiadwyedd, fel dewis olaf, gellir adfer arian sy'n

ddyledus i DWP o gyfrif banc unigolyn trwy gyhoeddi gorchymyn didynnu uniongyrchol i'w banc i'w dalu. Yn yr achosion mwyaf difrifol lle mae unigolyn wedi methu ag ad-dalu dyled heb esgus rhesymol i DWP, gall DWP wneud cais i'r llys i'w anghymhwyso dros dro rhag dal trwydded yrru lle mae'r llys yn fodlon bod gan y dyledwr y modd i ad-dalu ond wedi methu a gwneud hynny heb reswm da. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn esbonio sut y bydd DWP yn defnyddio'r pwerau adfer newydd, pwy y maent yn gwneud cais atynt, a'r mesurau diogelu i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gymesur ac yn deg, gan gynnwys hawliau cynrychiolaeth ac apêl lle bo hynny'n briodol. Mae hefyd yn nodi cyfrifoldebau sefydliadau ariannol wrth gymhwyso gorchymyn didyniad uniongyrchol a'r hyn y mae'n rhaid i lys ei ystyried ar gyfer gorchymynion anghymhwyso trwydded yrru.

- **DWP yn Cael Gwybodaeth i Gefnogi Ymchwiliadau Twyll yn y System Les** – Cryfhawyd pwerau casglu gwybodaeth presennol DWP gan y Ddeddf i ganiatáu i ymchwilwyr twyll orfodi gwybodaeth berthnasol gan unrhyw Ddarparwr Gwybodaeth wrth gynnal ymchwiliad troseddol i achos o dwyll a amheuir ar unigolyn adnabyddadwy. Mae'n creu dull sengl ar gyfer casglu gwybodaeth gan bob Darparwr Gwybodaeth, oni bai bod y math hwnnw o wybodaeth wedi'i heithrio, ac mae'n gwneud yn glir y gellir gofyn am ymatebion yn ddigidol. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn esbonio sut y bydd Swyddogion Awdurdodedig yn defnyddio'r pwerau newydd hyn unwaith y byddant yn

dod i rym ac mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i Ddarparwyr Gwybodaeth sydd angen cydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth.

Trwy gydol datblygu'r Codau Ymarfer hyn a phasio Deddf 2025, ystyriwyd mewnbwn a ddarperir gan sefydliadau ariannol, busnesau, elusennau dyledion, y sector cyngor ar ddyledion, adrannau eraill y Llywodraeth a seneddwyr.

Yn ogystal â'r mewnbwn uchod, ceisiodd DWP am adborth ychwanegol trwy ymgynghoriad cyhoeddus i sicrhau llywodraethu a thryloywder priodol wrth ddefnyddio'r pwerau newydd hyn. Gwnaethom wahodd barn o bob rhan o'r cyhoedd ac yn arbennig annog rhanddeiliaid a fydd yn cael eu heffeithio gan y Codau Ymarfer hyn i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Roedd ymatebwyr yn gallu darparu adborth ar ffurf ymateb ysgrifenedig trwy ffurflen ar-lein, e-bost neu bost.

Roedd yr ymgynghoriad yn agored i adborth gan y cyhoedd am 12 wythnos, rhwng 8 Rhagfyr a 27 Chwefror. Mae'n bwysig nodi bod y cyfeiriadau a nodir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn seiliedig ar Godau Ymarfer drafft a gyhoeddwyd yn flaenorol (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025) a bod cyfeiriadau'n destun newid.